



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

**2003 Rhif 1855 (Cy.205)**

**2003 No. 1855 (W.205)**

**PYSGODFEYDD MÔR,  
CYMRU**

**SEA FISHERIES,  
WALES**

**CADWRAETH PYSGOD MÔR**

**CONSERVATION OF SEA FISH**

**Gorchymyn Gwahardd Pysgota â  
Threillrwydi Lluosog (Cymru)  
2003**

**The Prohibition of Fishing with  
Multiple Trawls (Wales) Order  
2003**

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

*(This note is not part of the Order)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diddymu ac yn ailddeddfu gyda diwygiadau Orchymyn Cimychiaid Norwy (Gwahardd Dull Pysgota) 1993 (O.S. 1993/1887) mewn perthynas â Chymru.

This Order revokes and re-enacts with amendments the Norway Lobsters (Prohibition of Method of Fishing) Order 1993 (S.I. 1993/1887) in relation to Wales.

Mae'r Gorchymyn yn gwahardd pysgota ag unrhyw dreillrwyd heblaw treillrwyd unigol, ac eithrio o dan amgylchiadau penodedig. Yr oedd y gwaharddiad yng Ngorchymyn 1993 yn ymwneud â physgota am gimychiaid Norwy yn unig. Nid yw'r gwaharddiad yn y Gorchymyn hwn wedi'i gyfyngu felly. Mae'r gwaharddiad yn gymwys i gwch pysgota Prydeinig yn nyfroedd Cymru (erthygl 3(1)). Mae'r Gorchymyn yn cyflwyno diffiniad o "dreillrwyd unigol" (erthygl 2(1)). Nid yw'r gwaharddiad yn gymwys i dreill-longau trawst nac i bysgota â threillrwyd nad yw maint penodedig eu masgl yn llai nag 80 milimetr (erthygl 3(2)).

The Order prohibits fishing with any trawl other than a single trawl, save in specified circumstances. The prohibition in the 1993 Order related only to fishing for Norway lobsters. The prohibition in this Order is not so confined. The prohibition applies to a British fishing boat in Welsh waters (article 3(1)). The Order introduces a definition of "single trawl" (article 2(1)). The prohibition does not apply to beam trawlers or to fishing with a trawl having a specified mesh size of not less than 80 millimetres (article 3(2)).

Rhoddir pwerau penodol i swyddogion pysgodfeydd môr Prydain er mwyn gorfodi'r Gorchymyn (erthygl 4).

British Sea fishery officers are given certain powers for the purpose of the enforcement of the Order (article 4).

Rhagnodir tramgwyddau gan adrannau 5(1) a (6) o Ddeddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967 (p.84) a chosbau gan adran 11 o'r Ddeddf honno, fel y'i diwygiwyd gan adran 24(1) o Ddeddf Pysgodfeydd 1981 (p.29).

Offences are prescribed by sections 5(1) and (6) of the Sea Fish (Conservation) Act 1967 (c.84) and penalties by section 11 of that Act, as amended by section 24(1) of the Fisheries Act 1981 (c.29).

Mae'r Gorchymyn hwn yn cael ei wneud drwy ddibynnu ar Erthygl 46 o Reoliad y Cyngor (EC) 850/98 ar gyfer cadw adnoddau pysgodfeydd drwy gyfrwng mesurau technegol i amddiffyn organeddau morol ifanc (OJ Rhif L125, 27.4.98, t.1), sy'n awdurdodi Aelod-wladwriaeth i gymryd mesurau cenedlaethol penodol i gadw a rheoli stociau, ar yr amod bod mesurau o'r fath yn gymwys i bysgotwyr o'r Aelod-wladwriaeth honno yn unig.

Mae Arfarniad Rheoliadol wedi'i baratoi ac wedi'i adneuo yn llyfrgell y Cynulliad Cenedlaethol. Gellir cael copiâu oddi wrth y Gangen Bysgodfeydd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

This Order is made in reliance on Article 46 of the Council Regulation (EC) 850/98 for the conservation of fishery resources through technical measures for the protection of juveniles of marine organisms (O.J. No. L125, 27.4.98, p.1.), which authorises a Member State to take certain national measures for the conservation and management of stocks, provided such measures apply solely to the fishermen of that Member State.

A Regulatory Appraisal has been prepared and placed in the library of the National Assembly. Copies can be obtained from the Fisheries Branch, National Assembly for Wales, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

**2003 Rhif 1855 (Cy.205)****2003 No. 1855 (W.205)****PYSGODFEYDD MÔR,  
CYMRU****SEA FISHERIES,  
WALES****CADWRAETH PYSGOD MÔR****CONSERVATION OF SEA FISH****Gorchymyn Gwahardd Pysgota â  
Threillrwydi Lluosog (Cymru)  
2003****The Prohibition of Fishing with  
Multiple Trawls (Wales) Order  
2003***Wedi'i wneud* 16 Gorffennaf 2003*Made* 16th July 2003*Yn dod i rym* 1 Awst 2003*Coming into force* 1st August 2003

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 5(1) a 15(3) o Ddeddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967(a), ac a freinir ynddo bellach(b), a phob pŵer arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred by sections 5(1) and 15(3) of the Sea Fish (Conservation) Act 1967(a), and now vested in it(b) of all other powers enabling it in that behalf, hereby makes the following Order:

- (a) 1967 p.84. Amnewidiwyd adran 5(1) gan Ddeddf Pysgodfeydd 1981 (p.29), adran 22(1). Amnewidiwyd adran 15(3) gan Ddeddf Pysgodfeydd Môr 1968 (p.77) adran 22(1), Atodlen 1, paragraff 38(3) a'i diwygio gan Ddeddf Ffiniau Pysgota 1976 (p.86) adran 9(1), Atodlen 2, paragraff 16(1) ac O.S. 1999/1820, Erthygl 4, Atodlen 2, paragraff 43(2)(b). *Gweler* adran 22(2)(a) i gael y diffiniadau o "the Ministers" ("y Gweinidogion") at ddibenion adrannau 5 a 15(3); diwygiwyd adran 22(2) gan Ddeddf Pysgodfeydd 1981, adrannau 19(2)(d) a 45(b) ac (c) a chan O.S. 1999/1820, Erthygl 4, paragraff 43(12) o Atodlen 2.
- (b) Yn rhinwedd erthygl 2(a) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) trosglwyddwyd swyddogaethau a oedd yn arferadwy o dan Ddeddf 1967 i'r Cynulliad Cenedlaethol i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru (a ddiffinnir yn adran 155(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38) i gynnwys "the sea adjacent to Wales out as far as the seaward boundary of the territorial sea"); mewn perthynas â dyfroedd y tu hwnt i Gymru mae'r swyddogaethau hyn yn parhau i fod yn arferadwy gan y Gweinidogion. Mae Erthygl 3(1) ac Atodlen 1 o Orchymyn Deddf yr Alban 1998 (Swyddogaethau Cydamserol) 1999 (O.S. 1999/1592) yn darparu i'r swyddogaethau sy'n arferadwy o dan adrannau 5 a 15(3) o Ddeddf 1967 gael eu harfer gan y Gweinidogion yn gydamserol â Gweinidogion yr Alban, mewn perthynas â'r canlynol: cychod pysgota Prydeinig perthnasol o fewn y parth Albanaidd; a chychod pysgota'r Alban o fewn ffiniau pysgodfeydd Prydain ond y tu allan i'r parth Albanaidd. Yn rhinwedd erthygl 2(1) o Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Amaethyddiaeth a Physgodfeydd) 2000 (O.S. 2000/1812) trosglwyddwyd unrhyw swyddogaethau a oedd yn weddill gan Ysgrifenyddion Gwladol Cymru a'r Alban o dan adrannau 5 a 15(3) o Ddeddf 1967 i'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd, ac yn eu tro (ynghyd â swyddogaethau eraill) i'r Ysgrifenydd Gwladol gan O.S.2002/794.

- (a) 1967 c.84. Section 5(1) was substituted by the Fisheries Act 1981 (c.29), section 22(1). Section 15(3) was substituted by the Sea Fisheries Act 1968 (c.77) section 22(1), Schedule 1, paragraph 38(3) and amended by the Fishery Limits Act 1976 (c.86) section 9(1), Schedule 2, paragraph 16(1) and S.I. 1999/1820, Article 4, Schedule 2, paragraph 43(2)(b). *See* section 22(2)(a) for definitions of "the Ministers" for the purposes of sections 5 and 15(3); section 22(2) was amended by the Fisheries Act 1981, sections 19(2)(d) and 45(b) and (c) and by S.I. 1999/1820, Article 4, paragraph 43(12) of Schedule 2.
- (b) By virtue of article 2(a) of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) functions exercisable under the 1967 Act were transferred to the National Assembly in so far as exercisable in relation to Wales (defined in section 155(1) of the Government of Wales Act 1998 (c.38) as including "the sea adjacent to Wales out as far as the seaward boundary of the territorial sea"); in respect of waters beyond Wales these functions remain exercisable by the Ministers. Article 3(1) and Schedule 1 of the Scotland Act 1998 (Concurrent Functions) Order 1999 (S.I. 1999/1592) provide for the functions exercisable under sections 5 and 15(3) of the 1967 Act to be exercised by the Ministers, concurrently with Scottish Ministers, in relation to: relevant British fishing boats within the Scottish zone; and, Scottish fishing boats within British fishery limits but outside the Scottish zone. By virtue of article 2(1) of the Transfer of Functions (Agriculture and Fisheries) Order 2000 (S.I. 2000/1812) any remaining functions of the Secretaries of State for Scotland and Wales under sections 5 and 15(3) of the 1967 Act were transferred to the Minister of Agriculture, Fisheries and Food, and in turn (together with other functions) to the Secretary of State by S.I. 2002/794.

## Teitl, cychwyn a chymhwyso

1.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Gwahardd Pysgota â Threillrwydi Lluosog (Cymru) 2003.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru ac yn dod i rym ar 1 Awst 2003.

(3) Yn y Gorchymyn hwn mae i "Gymru" yr un ystyr â "*Wales*" yn adran 155(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2002(a) ac mae "dyfroedd Cymru" i'w ddehongli yn unol â hynny.

## Dehongli

### 2. Yn y Gorchymyn hwn -

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967;

ystyr "Gorchymyn cyfatebol" ("*equivalent Order*") yw Gorchymyn sy'n gymwys i Loegr, Gogledd Iwerddon neu'r Alban ac sydd wedi'i wneud o dan adran 5 o'r Ddeddf, yn unol ag Erthygl 46 o Reoliad y Cyngor, ac sy'n gwahardd pysgota ag unrhyw dreillrwyd ac eithrio treillrwyd unigol;

ystyr "Rheoliad y Cyngor" ("*the Council Regulation*") yw Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 850/98 dyddiedig 30 Mawrth 1998 ar gyfer cadw adnoddau pysgodfeydd drwy gyfrwng mesurau technegol i amddiffyn organeddau morol ifanc(b) fel y'i cywirwyd gan y Corigendwm i Atodiad XII i Reoliad y Cyngor(c) ac fel y'i diwygiwyd gan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 308/1999(ch), Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1459/1999(d), Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 2723/1999(dd), Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 812/2000(e) a Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1298/2000(f);

ystyr "rhwyd" ("*net*") yw treillrwyd, Rhwyd Sâ'n Danaidd neu rwyd lusg tebyg;

ystyr "treill-long drawst" ("*beam trawler*") yw cwch pysgota sydd, i'r graddau y mae'n cario neu'n defnyddio rhwydi, ond yn cario neu'n defnyddio rhwydi sydd wedi'u dylunio i gael eu llusgo ar hyd gwely'r môr ac y mae eu genau wedi'u hestyn â thrawst, bar neu ddyfais anhyblyg arall;

(a) 1998 p.38. Diffinnir Cymru yn adran 155(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38) i gynnwys "the sea adjacent to Wales out as far as the seaward boundary of the territorial sea". Mae erthygl 6 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwnnw yn delio â chymhwyso'r ddarpariaeth honno i Aberoedd yr Hafren a'r Ddyfrdwy.

(b) OJ Rhif L125, 27.4.98, t.1.

(c) OJ Rhif L318, 27.11.98, t.63.

(ch) OJ Rhif L038, 12.2.99, t.6.

(d) OJ Rhif L168, 3.7.99, t.1.

(dd) OJ Rhif L328, 22.12..99, t.9.

(e) OJ Rhif L1000, 20.4.2000, t.3.

(f) OJ Rhif L148, 22.6.2000, t.1.

## Title, commencement and application

1.-(1) This Order is called the Prohibition of Fishing with Multiple Trawls (Wales) Order 2003.

(2) This Order applies to Wales and comes into force on 1st August 2003.

(3) In this Order "*Wales*" has the same meaning as in section 155(1) of the Government of Wales Act 1998(a) and "*Welsh waters*" is to be construed accordingly.

## Interpretation

### 2. In this Order -

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Sea Fish (Conservation) Act 1967;

"the Council Regulation" ("*Rheoliad y Cyngor*") means Council Regulation (EC) No. 850/98 dated 30th March 1998 for the conservation of fishery resources through technical measures for the protection of juveniles of marine organisms(b) as corrected by Corrigendum to Annex XII of the Council Regulation(c) and amended by Council Regulation (EC) No. 308/1999(d), Council Regulation (EC) No. 1459/1999(e), Council Regulation (EC) No. 2723/1999(f), Council Regulation (EC) No. 812/2000(g) and Council Regulation (EC) No. 1298/2000(h);

"beam trawler" ("*treill-long drawst*") means a fishing boat which, in so far as it carries or uses nets, carries or uses only nets which are designed to be towed along the sea-bed and which have their mouth extended by a beam, bar or other rigid device;

"equivalent Order" ("*Gorchymyn cyfatebol*") means an Order applying to England, Northern Ireland or Scotland and made under section 5 of the Act, pursuant to Article 46 of the Council Regulation, which prohibits fishing by any trawl other than a single trawl;

"net" ("*rhwyd*") means a trawl, Danish Seine or similar towed net; and

(a) 1998 c.38. Wales was defined in section 155(1) as including "the sea adjacent to Wales out as far as the seaward boundary of the territorial sea". Article 6 of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) and Schedule 3 to that Order deals with the application of that provision to Severn and Dee Estuaries.

(b) OJ No. L125, 27.4.98, p.1.

(c) OJ No. L318, 27.11.98, p.63.

(d) OJ No. L038, 12.2.99, p.6.

(e) OJ No. L168, 3.7.99, p.1.

(f) OJ No. L328, 22.12.99, p.9.

(g) OJ No. L1000, 20.4.2000, p.3.

(h) OJ No. L148, 22.6.2000, p.1.

ystyr "treillrwyd unigol" ("*single trawl*") yw rhwyd unigol sy'n cael ei lusgo â rig dau ystof lle mae gan y rhwyd rhaff waelod un-gofl (a'r gofl yw'r rhan ganolog o'r dreillrwyd rhwng yr esgyll isaf), a lle mae'r rhaff waelod wedi'i chysylltu â'r rig llusgo ym mhen pob asgell a lle nad oes unrhyw gysylltiad arall, gan gynnwys ffrwynau, gwifrau neu raffau, yn ei chysylltu â'r rig llusgo a enwyd;

ac mae i unrhyw ymadrodd cyfatebol arall a ddefnyddir yn Rheoliad y Cyngor yr un ystyr yn y Gorchymyn hwn ag yn y Rheoliad hwnnw.

### **Gwahardd dull pysgota**

3.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2) isod, gwaharddir pysgota gan unrhyw gwch pysgota Prydeinig yn nyfroedd Cymru ag unrhyw dreillrwyd ac eithrio treillrwyd unigol.

- (2) Nid yw paragraff (1) uchod yn gymwys -
- (a) i unrhyw dreill-long drawst;
  - (b) i bysgota â threillrwyd nad yw maint ei fasgl yn llai nag 80 milimetr.

### **Pwerau swyddogion pysgodfeydd môr Prydeinig mewn perthynas â chychod pysgota**

4.-(1) Er mwyn gorfodi'r Gorchymyn hwn, neu unrhyw Orchymyn cyfatebol, caiff swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig arfer y pwerau a roddir gan baragraffau (2) i (4) o'r erthygl hon mewn perthynas ag unrhyw gwch pysgota Prydeinig yn nyfroedd Cymru.

(2) Caiff y swyddog fynd ar fwrdd y cwch, gyda phersonau a neilltuwyd i gynorthwyo gyda'i ddyletswyddau neu hebddynt, a chaiff ei gwneud yn ofynnol bod y cwch yn cael ei stopio a gwneud unrhyw beth arall a fydd yn hwyluso naill ai mynd ar fwrdd y cwch neu fynd oddi arno.

(3) Caiff y swyddog ei gwneud yn ofynnol bod y meist'r a phersonau eraill sydd ar fwrdd y cwch yn bresennol a chaiff wneud unrhyw archwiliad ac ymholiadau sy'n ymddangos i'r swyddog yn angenrheidiol at y diben a grybwyllir ym mharagraff (1) o'r erthygl hon ac, yn benodol -

- (a) caiff archwilio unrhyw bysgod ar y cwch ac offer y cwch, gan gynnwys yr offer pysgota, a'i gwneud yn ofynnol bod personau sydd ar fwrdd y cwch yn gwneud unrhyw beth sy'n ymddangos i'r swyddog yn angenrheidiol ar gyfer hwyluso'r archwiliad;
- (b) caiff ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw berson sydd ar fwrdd y cwch yn cyflwyno unrhyw ddogfen sy'n ymwneud â'r cwch, ag unrhyw weithrediadau pysgota neu weithrediadau ategol iddynt neu â'r personau sydd ar fwrdd y cwch sydd yng nghadwraeth neu feddiant y person hwnnw;

"single trawl" ("*treillrwyd unigol*") means a single net towed by a two warp rig in which the net has a single bosom groundrope (the bosom being the central portion of the trawl between the lower wings), where the groundrope is attached to the towing rig at each wing-end only and does not have any further attachment, including bridles, wires or ropes, connecting it to the said towing rig;

and any other corresponding expression used in the Council Regulation has the same meaning in this Order as in that Regulation.

### **Prohibition of method of fishing**

3.-(1) Subject to paragraph (2) below, fishing by any British fishing boat in Welsh waters with any trawl other than a single trawl is prohibited.

- (2) Paragraph (1) above does not apply -
- (a) to any beam trawler;
  - (b) to fishing with a trawl having a mesh size of not less than 80 millimetres.

### **Powers of British sea-fishery officers in relation to fishing boats**

4.-(1) For the purpose of the enforcement of this Order or any equivalent Order, a British sea-fishery officer may exercise the powers conferred by paragraphs (2) to (4) of this article in relation to any British fishing boat in Welsh waters.

(2) The officer may go on board the boat, with or without persons assigned to assist in his or her duties, and may require the boat to stop and do anything else which will facilitate either the boarding of, or the disembarkation from, the boat.

(3) The officer may require the attendance of the master and other persons on board the boat and may make any examination and inquiry which appears to be necessary for the purpose mentioned in paragraph (1) of this article and, in particular -

- (a) may examine any fish on the boat and the equipment of the boat, including the fishing gear, and require persons on board the boat to do anything which appears to be necessary for facilitating the examination;
- (b) may require any person on board the boat to produce any document relating to the boat, to its fishing operations or other operations ancillary thereto or to the persons on board which is in his or her custody or possession;

(c) er mwyn canfod a yw meist, perchennog neu siartrwr y cwch wedi cyflawni tramgwydd o dan adran 5(1) neu (6) o'r Ddeddf(a) o'i darllen gyda'r Gorchymyn hwn neu unrhyw Orchymyn cyfatebol, caiff chwilio'r cwch am unrhyw ddogfen o'r fath a gall ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw berson ar fwrdd y cwch yn gwneud unrhyw beth sy'n ymddangos i'r swyddog yn angenrheidiol ar gyfer hwyluso'r chwilio; ac

(ch) os oes gan y swyddog reswm dros amau bod tramgwydd perthnasol wedi'i chyflawni mewn perthynas â'r cwch, caiff gipio a chadw unrhyw ddogfen o'r fath a gyflwynir neu y deuir o hyd iddi ar fwrdd y cwch er mwyn galluogi defnyddio'r ddogfen fel tystiolaeth mewn achos ynglŷn â'r tramgwydd;

ond nid oes dim yn is-baragraff (ch) uchod yn caniatáu i unrhyw ddogfen y mae'r gyfraith yn mynnu ei bod yn cael ei chario ar fwrdd y cwch gael ei chipio a'i chadw ac eithrio tra bydd y cwch yn cael ei gadw mewn porthladd.

(4) Os yw'n ymddangos i swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig fod y Gorchymyn hwn wedi'i dorri ar unrhyw adeg, caiff y swyddog -

(a) ei gwneud yn ofynnol bod meist y cwch y credir y torrwyd y gorchymyn mewn perthynas ag ef yn mynd â'r cwch a'i griw i'r porthladd sy'n ymddangos i'r swyddog fel y porthladd cyfleus agosaf, neu caiff y swyddog wneud hynny ei hun; a

(b) cadw'r cwch yn y porthladd neu ei gwneud yn ofynnol bod y meist yn ei gadw yn y porthladd;

a phan fydd swyddog o'r fath yn cadw cwch neu'n ei gwneud yn ofynnol cadw cwch rhaid i'r swyddog gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r meist yn datgan y caiff y cwch ei gadw neu ei bod yn ofynnol ei gadw hyd oni thynnir yr hysbysiad yn ôl drwy gyflwyno i'r meist hysbysiad ysgrifenedig arall a lofnodwyd gan swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig.

## Diddymu

5. Diddymir drwy hyn Orchymyn Cimychiaid Norwy (Gwahardd Dull Pysgota) 1993(b), i'r graddau y mae'n effeithiol mewn perthynas â Chymru.

(a) Diwygiwyd is-adran (6) gan adran 22(2) o Ddeddf Pysgodfeydd 1981. Yn rhinwedd is-adran (7), os na chydymffurfir ag is-adran (6) yn achos unrhyw gwch pysgota, bydd y meist, y perchennog a'r siartrwr (os oes un) yn euog o dramgwydd o dan yr is-adran honno.

(b) O.S. 1993/1887.

(c) for the purpose of ascertaining whether the master, owner or charterer of the boat has committed an offence under section 5(1) or (6) of the Act(a) as read with this Order or any equivalent Order, may search the boat for any such document and may require any person on board the boat to do anything which appears to be necessary for facilitating the search; and

(d) where the boat is one in relation to which the officer has reason to suspect that such an offence has been committed, may take copies of and seize and detain any such document produced to the officer or found on board for the purpose of enabling the document to be used as evidence in proceedings for this offence;

but nothing in sub-paragraph (d) shall permit any document required by law to be carried on board the boat to be seized and detained except while the boat is detained in a port.

(4) Where it appears to a British sea-fishery officer that a contravention of this Order has at any time taken place within British fishery limits, the officer may -

(a) require the master of the boat in relation to which the contravention took place to take, or the officer may take, the boat and its crew to the port which appears to him or her to be the nearest convenient port; and

(b) detain or require the master to detain the boat in the port;

and where such an officer detains or requires the detention of a boat he or she shall serve on the master a notice in writing stating that the boat will be or is required to be detained until the notice is withdrawn by the service on the master of a further notice in writing signed by a British sea-fishery officer.

## Revocation

5. The Norway Lobsters (Prohibition of Method of Fishing) Order 1993(b) is hereby revoked, so far as it has effect in relation to Wales.

(a) Subsection (6) was amended by section 22(2) of the Fisheries Act 1981. By virtue of subsection (7), where subsection (6) is not complied with in the case of any fishing boat, the master, the owner and the charterer (if any) are guilty of an offence under that subsection.

(b) S.I. 1993/1887.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998

16 Gorffennaf 2003

16th July 2003

*D. Elis-Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

---

OFFERYNNAU STATUDOL

---

**2003 Rhif 1855 (Cy.205)**

**PYSGODFEYDD MÔR,  
CYMRU**

**CADWRAETH PYSGOD MÔR**

Gorchymyn Gwahardd Pysgota â  
Threillrwydi Lluosog (Cymru)  
2003

---

STATUTORY INSTRUMENTS

---

**2003 No. 1855 (W.205)**

**SEA FISHERIES,  
WALES**

**CONSERVATION OF SEA FISH**

The Prohibition of Fishing with  
Multiple Trawls (Wales) Order  
2003

© Hawlfraint y Goron 2003

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

**£2.00**

W144/7/03

ON

© Crown copyright 2003

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090770-1



9 780110 907703